Pythefnos Masnach Deg

Bu'r Cylch Dinasyddiaeth yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod fel eglwys yn gweithredu ein hymrwymiad fel Eglwys Masnach Deg. Yn ystod y cyfnod addurnwyd ffenestri'r capel a thu nôl i'r Pulpud â nwyddau Masnach Deg i'n hatgoffa am yr amrywiaeth nwyddau sy ar gael bellach ac sy'n ein galluogi i gefnogi'r mudiad tra'n prynu nwyddau sy angen arnom.

Dyma argraff un o'n haelodau:

"Pleser pur oedd mynychu'r oedfaon yn y capel dechrau'r mis. Pam?
Wel, roedd e'n fôr o liw, a hynny oherwydd yr amrywiaeth mae Masnach Deg yn eu gwerthu. Roedd tri phoster lliwgar tu cefn i 'r pulpud, ac roedd nwyddau ar bob un sil ffenest – nwyddau'r stafell molchi a'r gegin, bagiau a basgedi a dillad plant bach a'r brodwaith hardd oedd yn eu haddurno yn sicr o ddenu'r prynwyr. Diolch yn fawr iawn i'r rhai fu'n trefnu'r arddangosfa, ac rwy'n gwybod fod f'ystafell molchi i yn gwynto'n bersawrus iawn."

Yn ychwanegol at y stondin misol, sy'n rhoi cyfle i brynu pob math o nwyddau Masnach Deg, bu'r plant a'r plantos yn chwilio am wybodaeth ar bosteri a thaflenni am Fasnach Deg, a sicrhawyd digonedd o fyrbrydau bananas Masnach Deg rhwng y ddwy oedfa foreol ar yr ail Sul ym Mawrth.

I'r rhai hynny ohonom sy'n derbyn **Y Tyst**, tybed a oedd geiriau cywydd y Prifardd Robat Powell yn mynd trwy'r meddwl wrth i ni yfed ein coffi a chymdeithasu wedi oedfa'r hwyr?- ***"Cofiwch ym myd eich cyfoeth Sut 'leni daeth coffi coeth O bridd y llwm i'ch bwrdd llawn; A gafwyd hwn yn gyfiawn?"*** (allan o *Cywydd y Coffi Teg, Y Tyst* Cyfrol 144(9) 3 Mawrth 2011; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Paratowyd cwis Mastermind Masnach Deg a chwis arbennig Minny Mastermind i'r rhai iau. Yr enillwyr oedd Rhiannon Evans a Shani Llyr Evans.